

**AD-DREFNU YSGOLION
DOGFEN YMGYNGHORI
STATUDOL**



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**CYNNIG I GREU YSGOL ARDAL NEWYDD
AR SAFLE NEWYDD YN NYFFRYN AERON**

DYDDIAD: Mehefin 2019

1. CYFLWYNIAD

Un o bedair blaenoriaeth Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yw 'Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl' ac mae dogfen y strategaeth yn cydnabod fod system addysg Ceredigion ymysg y rhai mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. Fodd bynnag, dros y degawd diwethaf mae ffigurau'r cyfrifiad wedi cadarnhau bod y boblogaeth plant wedi gostwng 10%, sydd wedi cael effaith sylweddol ar nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg yn ein hysgolion. Felly, mae cynaliadwyedd y ddarpariaeth addysgol bresennol yng Ngheredigion yn cael ei herio a'i hadolygu.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod y polisi cyffredinol a'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer trefniadaeth ysgolion; fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb dros gynllunio a rheoli lleoedd ysgol, a rhaid iddynt sicrhau darpariaeth effeithlon er mwyn targedu adnoddau i wella deilliannau addysg pobl ifanc.

2. CEFNDIR

Yn dilyn ymgynghoriad anffurfiol cychwynnol a gynhaliwyd rhwng 4 Chwefror a 17 Mawrth 2019, cyflwynwyd dau gynnig amgen yn ystod yr ymgynghoriad ac mae asesiad o'u rhinweddau a'u hyfywedd wedi ei cyflwyno I Cabinet ar Mehefin 4 2019.

Penderfynodd y Cabinet yn ei gyfarfod i gymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Gymunedol Ciliau Parc, Ysgol Gynradd Gymunedol Dihewyd a Ysgol Gynradd Gymunedol Felinfach a creu ysgol ardal newydd ar safle newydd yn Nyffryn Aeron I ddisgyblion 3 – 11 oed.

Y Cynnig

Rhif derbyn arfaethedig	30
Trefniadau derbyn	Manylion yn Adran 12
Ystod oedran	3 - 11
Capasiti lleoedd disgyblion	210
Nifer y Lleoedd Meithrin	60
Lleoliad	Dyffryn Aeron
Categori	Cymunedol
Categori Iaith	Cyfrwng Cymraeg
Cyfleusterau Arfaethedig*	Cyfleuster Ysgol Gynradd yr 21ain Ganrif i gynnwys darpariaeth feithrin a chymunedol
Trefnidadau Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol	Manylion yn Adran 13

Y Rhesymau dros Lunio'r Cynnig

Yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgolion Ciliau Parc, Dihewyd a Felinfach a sut y bydd agor ysgol ardal newydd yn mynd i'r afael â nhw:

	Heriau allweddol	Mynd i'r afael â'r heriau
Nifer y disgyblion	Rhagwelir y bydd nifer disgyblion Ysgol Ciliau Parc yn cynyddu'n sylweddol dros y 4 blynedd nesaf a nifer disgyblion Ysgolion Dihewyd a Felinfach yn gostwng	Addysgir y disgyblion mewn dosbarthiadau â phlant o oedran agosach.
Cyflwyno'r Cwricwlwm	Un dosbarth sy'n cwmpasu'r Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Dihewyd ac yn Ysgol Felinfach ac un dosbarth yng nghyfnod allweddol 2. Mae 2 ddosbarth o fewn y cyfnod Sylfaen yn Ysgol Ciliau Parc a 2 ddosbarth yng nghyfnod allweddol 2.	Cynhelir y ddarpariaeth ar gyfer cyfnodau allweddol ar wahân, gyda'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau ystod oedran agosach.
Lleoedd gwag	Amrywiaeth rhwng ysgolion yn yr ardal, un dros a dwy dan gapasiti. Ar adeg CYBLD 2019, mae Ysgol Ciliau Parc wedi'i gordanysgrifio, gyda 4 disgybl dros y capasiti tra bo Ysgol Dihewyd â llefydd ar gyfer 3 disgybl ychwanegol ac mae gan Felinfach 20 lle gwag.	Ysgol a fydd yn gallu darparu'n well ar gyfer y galw am leoedd disgyblion yn yr ardal.
Cost fesul disgybl	Amrywiaeth sylweddol yn y gost fesul disgybl 2018/19. Cyfartaledd y sir o £3,761:	Byddai gostyngiad yn y gost gyfartalog fesul disgybl yn yr ysgol ardal newydd.

	<ul style="list-style-type: none"> • Ciliau Parc - £3,186 • Dihewyd - £5,346 • Felinfach - £4,216 	
Adeilad yr ysgol	Mae gan bob un o'r 3 ysgol gydymffurfiaid gwael neu ddrwg â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.	Sicrhau bod addysg yn cael ei darparu mewn ysgolion sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Mae'n dileu atebolrwydd posibl ar gyfer costau cynnal a chadw yn y dyfodol.

3. Y BROSES YMGYNGHORI

Bydd yr ymgynghoriad ar yr argymhelliad hwn yn dilyn y canllawiau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon wedi'i hanfon i'r partion canlynol sydd â diddordeb:

Staff (Addysgu ac Ategol) Ysgol Gynradd Ciliau Parc, Ysgol Gynradd Dihewyd ac Ysgol Gynradd Felinfach	Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid Ysgol Gynradd Ciliau Parc, Ysgol Gynradd Dihewyd ac Ysgol Gynradd Felinfach
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Ceredigion	Llywodraeth Cymru
Cynghorwyr Sir Lleol	Comisiynydd y Gymraeg
Aelod Cynulliad/Aelod Seneddol	Cyfarwyddwr Addysg awdurdod cyfagos Sir Gaerfyrddin
Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol – ERW Ein Rhanbarth ar Waith	Yr Eglwys yng Nghymru - Esgobaeth Tyddewi Awdurdod Esgobaeth Gatholig Rufeinig
Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol	Estyn
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau	Cynghorau Cymuned Lleol Ciliau Parc, Dihewyd a Felinfach
Undebau Llafur Athrawon a Staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill yn yr ysgolion a effeithir gan y cynnig	

Y Cyfnod Ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori, pryd y gellir mynegi barn mewn perthynas â'r cynnig presennol, yn digwydd rhwng 5 Mehefin a 16 Gorffennaf 2019. Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Mae hyn oherwydd y gall y cynnig newid mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Dyddiad	Gweithgaredd
4 Mehefin 2019	Penderfyniad y Cabinet i gymeradwyo ymgynghoriad ffurfiol
5 Mehefin 2019	Ymgynghoriad Ffurfiol yn dechrau
16 Gorffennaf 2019	Ymgynghoriad Ffurfiol yn dod i ben
3 Medi 2019	Adroddiad ar yr Ymgynghoriad i'w gyflwyno i'r Cabinet ar gyfer penderfyniad i fynd ymlaen â'r cynnig. Os caiff y cynnig ei dderbyn, cyhoeddir Hysbysiad Statudol.

Gellir mynegi barn neu ofyn cwestiynau pellach, naill ai trwy ysgrifennu llythyr neu trwy lenwi'r ffurflen ymateb ar ddiwedd y ddogfen hon erbyn **16 Gorffennaf 2019**. Dyma'r cyfeiriad:

Cyngor Sir Ceredigion,
Gwasanaeth Ysgolion,
Ail Lawr,
Canolfan Rheidol,
Rhodfa Padarn,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3UE

Neu e-bostiwch: adolygu.ysgolion@ceredigion.gov.uk

Ymgynghori â'r disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion y dair ysgol gymryd rhan yn y broses ymgynghori. Darperir fersiwn atodol o'r ddogfen ymgynghori ffurfiol hon, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu dogfen wybodaeth i ddisgyblion o'r enw 'Cynigion Trefniadaeth Ysgolion'.

Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n berthnasol i'w hoedran a lefel eu dealltwriaeth, gan sicrhau eu bod yn gallu mynegi barn ar sail gwybodaeth.

4. DISGRIFIAD A BUDDIANNAU

Y Sefyllfa Bresennol

Cryfderau	Gwendidau
Cadw hunaniaeth a phresenoldeb yr ysgolion yn y gymuned leol	Anghydbwysedd yn parhau rhwng ysgol sydd wedi'u gordanysgrifio a ysgolion â lleoedd dros ben
Dim amharu ar ddisgyblion na staff	Gallai cost fesul disgybl gynyddu petai nifer y disgyblion yn lleihau
	Byddai atebolrwydd ar gyfer costau cynnal a chadw yn y dyfodol yn parhau
	Nid yw'r adeiladau yn addas at y diben ar gyfer cyflwyno addysg yr 21ain ganrif

Manteision ac anfanteision cau'r ysgolion o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.

Manteision	Anfanteision
<ul style="list-style-type: none">• Bydd y disgyblion ar eu hennill trwy fynychu ysgol sy'n gallu cyflwyno'r cwricwlwm mewn cyd-destun cymdeithasol ehangach• Bydd y disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau ag ystod oedran tebyg• Bydd yn arwain at arbedion ariannol drwy leihau'r gost fesul disgybl• Bydd yn dileu ôl-groniad y costau cynnal a chadw	<ul style="list-style-type: none">• Y posibilrwydd o gynyddu'r pellter teithio ar gyfer sawl disgybl sy'n mynychu'r dair ysgol ar hyn o bryd• Gallai'r sefyllfa darfu ar ddisgyblion presennol yr ysgolion a'u teuluoedd• Ni fydd ysgol wedi'i lleoli yn y pentref ar gyfer darpar ddisgyblion yn y dyfodol

Y risgiau sy'n gysylltiedig â chau'r ysgolion a'r mesurau sydd eu hangen i'w rheoli

- Byddai ymgysylltiad agos â disgyblion, rhieni a'r gymuned yn hollbwysig i leihau a rheoli'r risg
- Byddai angen cymorth ar gyfer disgyblion agored i niwed neu ddisgyblion ag anghenion dysgu
- Byddai angen cefnogi'r broses o drosglwyddo disgyblion o'r dair ysgol I ysgol ardal newydd mewn ffordd sensitif a gofalus er mwyn sicrhau dilyniant yn y broses addysgu a dysgu

Effaith ar y Gymuned

Rhagwelir na fyddai unrhyw effaith ar y gymuned gan fod hwn yn barhad o'r ddarpariaeth bresennol.

Anfonwyd holiadur at Bennaethiaid y dair ysgol yn gofyn am wybodaeth am ddefnydd presennol gan y gymuned.

Mae Asesiad Effaith ar y Gymuned ar gael mewn dogfen ar wahân.

Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol

Rhagwelir na fydd unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan fod hwn yn barhad o'r ddarpariaeth bresennol. Mae 2 ddisgybl yn derbyn trafndiaeth i fynychu Ysgol Dihewyd ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw gludiant yn cael ei ddarparu i ysgolion Ciliau Parc na Felinfach ar hyn o bryd.

Adeiladu ysgol ardal newydd ar safle ganolog yn Nyffryn Aeron ar gyfer ysgolion Ciliau Parc, Dihewyd a Felinfach

Manteision	Anfanteision
Byddai'r derbyniad cyfalaf a ddeuai o werthu'r ysgolion yn cael ei ail-fuddsoddi mewn addysg	Byddai staff yn cael eu hadleoli neu eu diswyddo
Gostyngiad mewn cost fesul disgybl	Byddai'r cynnig hwn yn arwain at rai disgyblion yn gorfod teithio ymhellach
Byddai adnoddau'n cael eu defnyddio'n well – gan wella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd	Cynnydd mewn costau teithio
Disgyblion yn cael eiu haddysgu mewn dosbarthiadau ystod oedran agosach	
Darpariaeth addysg o 3 oed ymlaen	
Nodwyd a chymeradwywyd cyllid Band B Ysgolion yr 21ain ganrif mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru.	
Cyfle i ddarparu llwybr diogel i'r ysgol	
Cyfleusterau parcio gwell yn ystod amseroedd gollwng a chasglu	
Posibilirwydd o gydosod theatr newydd yn ddibynnol ar ymgynghoriad parhaus	

Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg

Rhagwelir y bydd effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg gan y byddai disgyblion yn manteisio ar gyfleusterau gwell mewn dosbarthiadau ag ystod oedran agosach sy'n darparu adnoddau yn unol â'r weledigaeth ar gyfer ysgolion yr 21^{ain} ganrif.

Effaith debygol ar y Gymuned

Gallai'r cynnig leihau'r cyfleusterau sydd wedi'u lleoli mewn cymunedau lleol serch hynny, byddai modd i'r gymuned ddefnyddio cyfleusterau gwell wedi'u darparu gan ysgol ardal newydd.

Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol

Rhagwelir y byddai angen i ddisgyblion deithio ymhellach i fynd i'r ysgol. Fodd bynnag, ni ddylai'r pellter fod yn fwy na 5 milltir ar gyfartaledd. Mae mwy o ddisgyblion yn debygol o fod yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim.

Sefydlu ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron wedi'i leoli ar Gampws Y Ganolfan Addysg Broffesiynol, Felinfach ar gyfer disgyblion Ciliau Parc, Dihewyd a Felinfach

Manteision	Anfanteision
Byddai'r derbyniad cyfalaf a ddeuai o werthu'r ysgolion yn cael ei ail-fuddsoddi mewn addysg	Byddai staff yn cael eu hadleoli neu eu diswyddo
Gostyngiad mewn cost fesul disgybl	Byddai'r cynnig hwn yn arwain at rai disgyblion yn gorfod teithio ymhellach
Byddai adnoddau'n cael eu defnyddio'n well – gan wella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd	Byddai'n arwain at gynnydd mewn costau teithio
Darpariaeth addysg o 3 oed ymlaen	Nid yw'r safle yn wastad ac mae'r adeilad yn cynnwys asbestos. Mae'n bosibl y bydd gwaith adnewyddu yn costio mwy nag a ragwelwyd i ddechrau. Yn ogystal, mae angen gwaith adnewyddu ar y theatr.
Cyfle i theatr, ysgol a chanolfan addysg gael eu lleoli ar yr un safle	Byddai angen adleoli staff sy'n gweithio ar y campws ar hyn o bryd
Cyfleusterau parcio gwell yn ystod amseroedd gollwng a chasglu	Mae'r safle wedi'i leoli wrth ymyl ffatri ac ar ffordd A brysur

Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg

Rhagwelir effaith bositif ar ansawdd a safonau addysg gan y byddai disgyblion yn manteisio ar gyfleusterau gwell mewn dosbarthiadau ag ystod oedran agosach.

Effaith debygol ar y Gymuned

Gallai'r cynnig leihau'r cyfleusterau sydd wedi'u lleoli mewn cymunedau lleol. Serch hynny, byddai modd i'r gymuned ddefnyddio cyfleusterau gwell wedi'u darparu gan ysgol ardal newydd.

Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol

Rhagwelir y byddai angen i ddisgyblion deithio ymhellach i fynd i'r ysgol. Fodd bynnag, ni ddylai'r pellter fod yn fwy na 5 milltir ar gyfartaledd.

Ffedereiddio ffurfiol rhwng Ysgolion Ciliau Parc, Dihewyd a Felinfach

Manteision	Anfanteision
Cadw hunaniaeth yr ysgolion	Byddai angen cynnal ymgynghoriad ar wahân gan fod hwn yn gynnig newydd. Y dyddiad gweithredu cynharaf os caiff ei gymeradwyo fyddai Medi 2020.
Dim amharu ar ddisgyblion na staff	Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r mater o ran gor-danysgrifiad yn Ysgol Ciliau Parc
Cadw presenoldeb yn y gymuned leol	Byddai'r rhwymedigaeth bresennol a'r dyfodol o ran costau cynnal a chadw a cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn parhau
Un Corff Llywodraethu a fyddai'n darparu mecanwaith effeithiol ac atebol i ysgolion gyfuno adnoddau, gan gynnwys arbenigedd staff a chyllidebau, rhyddhau capasiti yn yr uwch dîm rheoli a sicrhau arbedion maint ac arbedion effeithlonrwydd.	Byddai darpariaeth ar wahân ar gyfer cyfnodau allweddol yn parhau i fod yn her ar rai safleoedd
Un Pennaeth	Byddai 2 bennaeth yn cael eu diswyddo
Ni fyddai angen unrhyw fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol	Os gwneir y penderfyniad i ffedereiddio, cyfrifoldeb y cyrff llywodraethu presennol fydd ymgynghori â'r holl staff ar drosglwyddo eu swyddi i'r corff llywodraethu unigol newydd.

Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg

Rhagwelir na fydd fawr o effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg fodd bynnag, cydnabyddir y byddai'r ysgolion yn gallu rhannu adnoddau, arbenigedd ac arfer gorau.

Effaith debygol ar y Gymuned

Rhagwelir na fydd unrhyw effaith ar y gymuned gan fyddai'r dair ysgol yn parhau ac ar gael ar gyfer digwyddiadau'r gymuned.

Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol

Rhagwelir na fydd unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan fyddai'r dair ysgol yn parhau.

Ysgol Aml-safle

Mantais	Anfantais
Dim amharu ar ddisgyblion na staff	Byddai angen cynnal ymgynghoriad ar wahân gan fod hwn yn gynnig newydd. Y dyddiad gweithredu cynharaf pe bai wedi'i gymeradwyo fyddai Medi 2020
Un corff llywodraethu a fyddai'n darparu mecanwaith effeithiol ac atebol i ysgolion gasglu adnoddau, gan gynnwys arbenigedd staff a chyllidebau, rhyddhau gallu yn yr uwch dîm rheoli a sicrhau arbedion maint ac effeithlonrwydd.	Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r mater o ran gor-danysgrifiad yn Ciliau Parc
Un Pennaeth	Byddai'r rhwymedigaeth bresennol a'r dyfodol o ran costau cynnal a chadw a cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn parhau
Ni fyddai angen unrhyw fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol	Byddai darpariaeth ar wahân ar gyfer cyfnodau allweddol yn parhau i fod yn her
Cadw presenoldeb yn y gymuned leol	Byddai dau bennaeth yn cael eu diswyddo

Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg

Rhagwelir na fydd fawr o effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg fodd bynnag, cydnabyddir y byddai'r 3 ysgol yn gallu rhannu ymhellach adnoddau, arbenigedd ac arfer gorau.

Effaith debygol ar y Gymuned

Rhagwelir na fydd unrhyw effaith ar y gymuned gan fyddai'r dair ysgol yn parhau ac ar gael ar gyfer digwyddiadau'r gymuned.

Effaith debygol trefniadau teithio gwahanol

Rhagwelir na fydd unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan fyddai'r dair ysgol yn parhau.

Ymestyn Ysgol Ciliau Parc ac Ysgol Felinfach i dderbyn disgyblion o Ysgol Dihewyd a chau Ysgol Dihewyd

Manteision	Anfanteision
Cadw hunaniaeth a phresenoldeb yr ysgolion yng nghymunedau Felinfach a Chiliau Parc	Mae arian yr 21 ^{ain} ganrif Llywodraeth Cymru wedi ei gymeradwyo o ran egwyddor ar gyfer adeiladu ysgol ardal newydd ac i ymgymryd â chynlluniau adnewyddu
Arbedion effeithlonrwydd ariannol posibl drwy leihau'r gost fesul disgybl	Dim darpariaeth i ddisgyblion 3 oed heb gynnal ymgynghoriad statudol er mwyn newid ystod oedran y ddwy ysgol
Posibilrwydd cryfach gallai disgyblion elwa drwy gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau ag ystod oedran tebyg	Cyfyngiadau safle posibl a fyddai'n gwahardd unrhyw ddatblygiad
Byddai'r derbyniad cyfalaf a ddeuai o werthu Ysgol Dihewyd yn cael ei ail-fuddsoddi mewn addysg	

Effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Disgwylir y gallai'r effaith ar ansawdd a safonau addysg o bosibl fod yn un cadarnhaol, gan y byddai disgyblion o bosib yn elwa o well cyfleusterau mewn dosbarthiadau â phlant o oedran agosach.

Effaith debygol ar y gymuned

Gallai'r cynnig leihau'r cyfleusterau sydd wedi eu lleoli o fewn cymuned Dihewyd.

Effaith debygol ar drefniadau teithio gwahanol

Disgwylir y byddai disgyblion yn gorfod teithio ymhellach, serch hynny ni ddylai'r pellter fod yn fwy na 5 milltir ar gyfartaledd. Mae'n debygol y byddai gan fwy o ddisgyblion hawl i gludiant am ddim.

Sefydlu Ysgol Ardal Newydd yn Nyffryn Aeron ar gyfer disgyblion Ysgol Ciliau Parc ac Ysgol Felinfach gydag Ysgol Dihewyd yn parhau fel ysgol annibynol a heb fod yn ffurfio rhan o'r cynnig

Manteision	Anfanteision
Cadw hunaniaeth a phresenoldeb yr ysgol yng nghymuned leol Dihewyd	Mae arian yr 21 ^{ain} ganrif Llywodraeth Cymru wedi ei gymeradwyo o ran egwyddor ar gyfer adeiladu ysgol ardal newydd sy'n cynnwys Ysgol Dihewyd
Byddai derbyniadau cyfalaf o werthu dwy ysgol yn cael eu hail-fuddsoddi mewn addysg	Gallai'r gost fesul disgybl gynyddu eto pe bai nifer y disgyblion yn lleihau
Darpariaeth addysg o 3 oed ymlaen yn yr ysgol newydd	Ni fyddai darpariaeth addysg o 3 oed ymlaen ar gael ar gyfer disgyblion fyddai'n mynychu Dihewyd
Defnydd gwell o adnoddau – gyda gwelliant yn nhermau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cost	Byddai atebolrwydd o ran costau cynnal a chadw yn parhau tua'r dyfodol i Ysgol Dihewyd
Byddai disgyblion yn elwa o fod mewn ysgol sy'n gallu cyflwyno'r cwricwlwm mewn cyd-destun cymdeithasol ehangach	Byddai'r gost fesul disgybl yn Nihewyd yn aros yn arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd sirol
Byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o ystod oedran tebyg	Ni fyddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o ystod oedran tebyg
Arbedion effeithiolrwydd ariannol drwy leihau'r gost fesul disgybl	

Effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg

Disgwylir y gallai'r effaith ar ansawdd a safonau addysg o bosibl fod yn un cadarnhaol, gan y byddai disgyblion yn elwa ar well cyfleusterau mewn dosbarthiadau â phlant o ystod oedran agosach, ar gyfer y disgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Ciliau Parc ac Ysgol Felinfach.

Ar gyfer ysgol Dihewyd, nid yw'r cynnig hwn yn mynd i'r afael ag un cyfnod allweddol cyfan yn cael ei addysgu mewn un dosbarth.

Mae niferoedd rhagamcanedig disgyblion yn Ysgol Dihewyd yn dynodi dyfodol bregus posibl i'r ysgol.

Effaith debygol ar y gymuned

Gallai'r cynnig leihau'r cyfleusterau sydd wedi eu lleoli o fewn cymunedau Ciliau Parc a Felinfach, serch hynny byddai'r cyfleusterau gwell y byddai ysgol newydd yn eu cynnig ar gael at ddefnydd y gymuned. Byddai defnydd cymunedol o'r ysgol yn parhau yn Dihewyd.

Effaith debygol ar drefniadau teithio gwahanol

Rhagwelir y byddai rhai disgyblion yn gorfod teithio ymhellach, serch hynny ni ddylai'r pellter fod yn fwy na 5 milltir ar gyfartaledd. Mae'n debygol y byddai gan fwy o ddisgyblion hawl i gludiant am ddim.

Pam nad yw ffederasiwn yn opsiwn hirdymor

O'r 3 ysgol yn Nyffryn Aeron, rhagwelir y bydd nifer y disgyblion mewn 2 o'r ysgolion sef Dihewyd a Felinfach yn gostwng dros y bedair blynedd nesaf a rhagwelir y bydd mwy o alw am leoedd yn Ysgol Ciliau Parc na fydd ar gael yn y dyfodol. Ni fydd ffederasiwn ffurfiol yn arwain at ddsbarthiadau ystod oedran agosach. Mae'r gost fesul disgybl yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Ceredigion yn Ysgolion Dihewyd a Felinfach. Ni fydd ffederasiwn ffurfiol yn arwain at ostyngiad yn y gost fesul disgybl, gostyngiad yn y costau cynnal a chadw neu'n cynorthwyo ysgolion i weithredu o fewn eu cyllidebau a ddyrannwyd.

Cludiant

Mae 2 ddisgybl yn derbyn trafndiaeth ar hyn o bryd i fynychu Ysgol Dihewyd. Nid oes unrhyw gludiant yn cael ei ddarparu i Ysgolion Ciliau Parc na Felinfach ar hyn o bryd.

Trefniadau Cludiant

1) Darperir y disgyblion hynny sy'n mynychu'r ysgolion sydd i'w cau ar hyn o bryd â chludiant i'r ysgol newydd os ydyn nhw'n byw dwy filltir neu ragor i ffwrdd o'r ysgol newydd. Bydd hyn yn berthnasol i'w brodyr neu chwiorydd hefyd pan fyddant yn ddigon hen i fynychu'r ysgol newydd. Dylid nodi bod y trefniant hwn ar gyfer disgyblion y mae'r ysgol sy'n cau yn ysgol agosaf iddynt yn unig. Os nad yr ysgol honno yw'r ysgol agosaf, yna darperir cludiant am ddim ar gyfer y pellter ychwanegol sy'n rhaid i'r disgyblion deithio i'r ysgol newydd yn unig.

2) I'r disgyblion newydd hynny (ar wahân i frodyr neu chwiorydd fel y nodir yn 1 uchod) o ardal yr ysgol sydd wedi cau a fydd yn mynychu'r ysgol newydd, bydd yr

hawl i gludiant am ddim yn unol â pholisi'r Cyngor ar y pryd. Y polisi presennol yw bod gan ddisgyblion yr hawl i gael cludiant am ddim os ydyn nhw'n cwrdd â phob un o'r meini prawf canlynol:

- Eu bod o oed ysgol gorfodol
- Eu bod yn mynychu'r ysgol agosaf neu'r un a ddynodwyd gan y Cyngor
- Eu bod yn byw'n bellach na'r pellter cerdded statudol o'r ysgol, sef dwy filltir

3) Dylid nodi:

- Mesurir y pellter yn ôl y llwybr cerdded byrraf rhwng y cartref â'r ysgol (o'r ffordd Cyngor agosaf at yr eiddo, i'r mynediad agosaf at safle'r ysgol).
- Pan ddefnyddir cerbydau contract neu gerbydau teithwyr cyhoeddus, yna nid yw bob amser yn bosib trefnu taith y cerbydau hynny i basio'n agos at gartref pob disgybl. Gall fod gofyn i rieni felly i wneud eu trefniadau'u hunain i gael eu plentyn at 'fan casglu' agosaf y cerbyd ac yn ôl. Gwneir pob ymdrech i gadw'r pellter hwn mor isel â phosib ac ni ddylai fod dros 1.5 milltir.

4) Bydd y trefniadau cludiant go iawn yn hysbys unwaith y bydd contractwr wedi'i benodi, a bydd rhieni'n cael eu cynghori ynghylch manau casglu, amserau ac ati bryd hynny.

Hygyrchedd Darpariaeth

Pellter

Y cynnig yw adeiladu ysgol newydd yn yr ardal felly byddai gan ddisgyblion daith resymol i'r ysgol newydd.

5. MANYLION YR YSGOLION SY’N CAEL EU HEFFEITHIO

Mae’r ysgolion canlynol wedi’u lleoli yn Nyffryn Aeron:

- Ysgol Gynradd Gymunedol Ciliau Parc
- Ysgol Gynradd Gymunedol Dihewyd
- Ysgol Gynradd Gymunedol Felinfach

Nid oes darpariaeth feithrin yn unrhyw un o’r ysgolion.

Mae’r ysgolion wedi’u lleoli lai na 5 milltir o’i gilydd.

Gwybodaeth Gyffredinol am yr Ysgolion

	Categori laith ¹	Nifer y Derbyniadau	Capasiti	Nifer CYBLD mis Ionawr 2019	Nifer y disgyblion ar y gofrestr 24 Mai 2019	Ystod Oedran	Categori’r Ysgol
Ciliau Parc	CC ²	9	68	72	73	4-11	Ysgol Gynradd Gymunedol
Dihewyd	CC ²	5	35	32	32	4 - 11	Ysgol Gynradd Gymunedol
Felinfach	CC ²	8	60	40	43	4 - 11	Ysgol Gynradd Gymunedol

Nifer y Disgyblion (CYBLD 2015-2019)

Mae’r tabl isod yn dangos ffigyrau’r CYBLD ers 2015

	NIFEROEDD GWIRIONEDDOL Y CYBLD				
	2015	2016	2017	2018	2019
Ciliau Parc	57	58	65	79	72
Dihewyd	35	31	34	28	32
Felinfach	56	47	47	46	40

¹ Cylchlythyr 23/2007 Llywodraeth Cymru “Diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg”
² Cyfrwng Cymraeg

Rhagamcaniadau disgyblion

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y disgyblion a ragwelir hyd at 2023. Lluniwyd y rhagamcaniadau hyn ym mis Medi 2018, ac maent yn ystyried tueddiadau blaenorol, ynghyd â'r newidiadau demograffig a ragwelir a'r gyfradd genedigaethau gyfartalog. Mae'n bwysig nodi na all y rhagamcaniadau hyn ystyried unrhyw wyriad annisgwyl o ran tueddiadau lleol.

	Rhagamcaniad Disgyblion ar gyfer 2020	Rhagamcaniad Disgyblion ar gyfer 2021	Rhagamcaniad Disgyblion ar gyfer 2022	Rhagamcaniad Disgyblion ar gyfer 2023
Ciliau Parc	90	103	104	112
Dihewyd	30	31	30	28
Felinfach	38	38	33	32

Capasiti sy'n weddill

Pennir y fethodoleg i gyfrifo capasiti ysgolion yn nogfen Llywodraeth Cymru, 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru', ac mae'n cynnig dull cadarn a chyson o asesu'r capasiti.

Ysgol	Cyfanswm y disgyblion ar y gofrestr 24 Mai 2019	Capasiti	Lleoedd gwag	% y Lleoedd Gwag
Ciliau Parc	73	68	0	0%
Dihewyd	32	35	3	8%
Felinfach	43	60	17	28%

Ansawdd a hygyrchedd yr adeiladau

Comisiynwyd arolygon o gyflwr adeiladau pob ysgol ym mis Ionawr 2010 gan Lywodraeth Cymru, a chynhaliwyd yr arolygon gan EC Harris Built Asset Consultancy. Arweiniodd yr arolygon at y canfyddiadau canlynol:

Ysgol	Cyflwr adeilad yr ysgol	Addasrwydd	Cynaliadwyedd	Cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd	Ôl-groniad cynnal a chadw
Ciliau Parc	B	B	C	D	£8,878
Dihewyd	C	C	C	C	£9,134
Felinfach	B	A	C	C	£24,634

Categoriâu'r Arolwg	Cyflwr yr Adeilad
Categori A	Da
Categori B	Boddhaol
Categori C	Gwael
Categori D	Gwael iawn

Ar hyn o bryd, cyfanswm ôl-groniad gwaith cynnal a chadw yw £42,646. Pennwyd y swm yn 2010 ac nid yw'n ystyried dirywiad pellach yn sgil peidio â chywiro'r diffygion a nodwyd neu'r holl welliannau arwyddocaol a gwblhawyd.

6. ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG

Canfyddiadau Estyn

Mae Estyn yn arolygu pob ysgol fel rhan o raglen arolygu genedlaethol. Gwelir isod y gymhariaeth rhwng ansawdd ac amrywiaeth yr addysg a ddarperir ymhob un o'r ysgolion yn ystod ei harolygiad diwethaf:

Ysgol Gynradd Ciliau Parc

Dyddiad yr arolygiad	Safonau	Llesiant as agweddau at ddysgu	Profiadau addysgu a dysgu	Cymorth, gofal ac arweiniad	Arweinyddiaeth a Rheolaeth
Ebrill 2018	Da	Da	Da	Da	Da

Ysgol Gynradd Dihewyd

Dyddiad yr arolygiad	Safonau	Llesiant as agweddau at ddysgu	Profiadau addysgu a dysgu	Cymorth, gofal ac arweiniad	Arweinyddiaeth a Rheolaeth
Tach 2018	Da	Da	Da	Da	Da

Ysgol Gynradd Felinfach

Dyddiad yr Arolygiad	CA1 Pa mor dda yw'r deilliannau?	CA2 Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	CA3 Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r gwaith rheoli?
Hyd 2015	Da	Da	Da

Dyfarniadau

Rhagorol: Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig.

Da: Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau.

Digonol ac angen gwella: Cryfderau'n gorbwysu gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella.

Anfoddfaol ac angen gwelliant brys: Gwendidau pwysig yn gorbwysu cryfderau.

Effaith debygol cau'r ysgol ar Ansawdd a Safonau Addysg

Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith negyddol ar ansawdd a safonau'r addysg a fydd yn cael ei darparu ar gyfer disgyblion.

Rhagwelir y bydd y disgyblion yn trosglwyddo i ysgol ardal newydd â phroffil addysgu tebyg neu well.

Effaith debygol y cynnig ar allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen a'r holl gyfnodau allweddol dysgu:

Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y gallu i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y ddau gyfnod allweddol gan y bydd yr ysgol ardal newydd yn gallu cyflwyno'r cwricwlwm mewn ffordd briodol, wahaniaethol, eang ac amrywiol.

Catégorieiddio Ysgolion

Diben y System Genedlaethol ar gyfer Categoriëiddio Ysgolion yw darparu cymorth ac annog gwella ar y cyd trwy roi ysgolion mewn sefyllfaoedd sy'n eu galluogi i nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu at eu cynnydd a'u llwyddiant, yn ogystal ag amlygu'r meysydd y mae'n rhaid iddynt ganolbwyntio arnynt er mwyn datblygu ymhellach.

- **Cam un:** Mae ystod eang o wybodaeth yn cael ei hystyried, sy'n nodi amgylchiadau lleol, ac sy'n fan cychwyn ar gyfer trafodaethau rhwng ysgolion a'u hymgyngorydd her rhanbarthol. Diben hyn yw sicrhau bod ysgolion a'u dysgwyr yn cael y cymorth cywir ar yr adeg iawn er mwyn gwireddu eu llawn botensial.
- **Cam dau:** Mae ymgynghorwyr her yn gwerthuso gallu'r ysgol i wella, gan ystyried tystiolaeth ynghylch y safonau a gyflawnwyd ac ansawdd yr arweinyddiaeth, y dysgu a'r addysgu. Maent hefyd yn defnyddio Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru i gynnal y gwerthusiad a llywio'r trafodaethau ag ysgolion.
- **Cam tri:** Defnyddir y canlyniadau yng ngham dau i benderfynu ar gategori cymorth pob ysgol. Mae'r categori terfynol yn seiliedig ar liw sy'n dangos lefel y cymorth y mae ysgol ei hangen, ac mae hyn yn arwain at raglen gymorth, her ac ymyrraeth wedi'i theilwra ar ei chyfer.

Categori cymorth gwyrdd:

Darpariaeth graidd, h.y. hyd at bedwar diwrnod cyswllt y flwyddyn gan Ymgynghorwyr Her yr ysgol. Bydd ymweliadau cymorth yn canolbwyntio ar ansawdd y safonau, yr arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth.

Categori cymorth melyn:

Bydd yr ysgolion hyn yn gymwys i gael hyd at 10 diwrnod o gymorth. Bydd yr ymweliadau hyn yn canolbwyntio ar wella'r arweinyddiaeth, yr addysgu a'r dysgu, gan gynnwys prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella.

Categori cymorth oren:

Bydd yr ysgolion hyn yn gymwys i gael hyd at 15 o ddiwrnodau cymorth gan y rhanbarth. Gall yr ysgolion hyn gael llythyr gan yr Awdurdod Lleol ac ERW yn cynghori bod angen cydweithio'n agos â'r Awdurdod Lleol i wella'r safonau, yr addysgu a'r arweinyddiaeth. Gall ysgolion gael eu gosod yn y categori hwn am nifer o resymau, gan gynnwys ansefydlogrwydd o ran yr arweinyddiaeth.

Categori cymorth coch:

Bydd yr ysgolion hyn yn gymwys i gael hyd at 25 o ddiwrnodau cymorth gan y rhanbarth. Gall yr ysgolion hyn gael Hysbysiad Gwella, a gallai'r Awdurdod Lleol ddefnyddio pwerau statudol pellach i ymyrryd.

Yn unol â diffiniadau'r model cenedlaethol ar gyfer categoriëiddio ysgolion, mae'r ysgolion wedi'u categoriëiddio fel a ganlyn:

Ysgol	Categori'r Ysgol
Ciliau Parc	Melyn
Dihewyd	Melyn
Felinfach	Melyn

Ysgol Gynradd Ciliau Parc

Safonau

Mae safonau cyrhaeddiad y rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfathrebu i safon uchel, gan ddatblygu medrau llafar Cymraeg yn gyflym. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg cadarn a medrant ysgrifennu'n estynedig mewn ystod o ffurfiau'n llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol yn drawsgwricwlaidd.

Llesiant ac agweddau at ddysgu

Mae safonau lles y disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn dda. Mae'r disgyblion oll yn hapus iawn yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos gofalgwr a chartrefol. Maent yn ymwybodol y medrant droi at staff i rannu pryderon neu ddefnyddio'r Bocs Becso. Maent yn dangos hyder yng ngallu oedolion yr ysgol i ddatrys unrhyw anghydweld rhyngddynt yn deg a rhesymol. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod parch i'w barn. Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac agwedd gadarnhaol at ymgymryd â gweithgarwch corfforol. Maent yn manteisio'n frwdfrydig ar y cyfleoedd a ddarperir iddynt o fewn y cwricwlwm ac yn allgyrsiol i ymgymryd â gweithgareddau chwaraeon. Mae Cyngor Ysgol gweithgar gan yr ysgol sy'n trefnu digwyddiadau'n annibynnol e.e. Te'r Henoed. Mae'r Llysgenhadon Gwych hefyd yn weithgar iawn ac yn hyderus i gyflawni eu gwaith yn annibynnol. Maent wedi hyrwyddo agenda hawliau plant yn effeithiol iawn.

Profiadau addysgu a dysgu

Mae ansawdd yr addysgu yn y ddau gyfnod allweddol yn gadarn. Mae ffresni a brwdfrydedd yn y profiadau dysgu mae'r ysgol yn eu cynnig, sy'n diddorïr disgyblion ac yn eu hannog i roi o'u gorau. Gwneir pob ymdrech i gyfoethogi'r ddarpariaeth gydag ymweliadau a chyfraniadau gan ddarparwyr allanol. Mae'r athrawon yn darparu adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol sy'n cyfarwyddo'r disgyblion sut i wella eu gwaith ymhellach yn effeithiol.

Cymorth, gofal ac arweiniad

Mae disgyblion ag ADY yn cael eu hadnabod yn gynnar yn yr ysgol ac maent yn cael mynediad at ystod o raglenni ymyrraeth fuddiol sy'n cael eu darparu gan athrawes a chymorthyddion profiadol ac effeithiol. Mae'r ysgol yn buddsoddi'n ddoeth yn y ddarpariaeth a thystia datblygiad y disgyblion i lwyddiant y gweithredu. Mae systemau tracio'r ysgol yn dangos y cynnydd cadarnhaol iawn a wneir gan ddisgyblion o bob cefndir a gallu.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr yr ysgol yn rhannu eu gweledigaeth yn effeithiol. Mae perthynas adeiladol a gwerthfawr rhwng yr ysgol a'i chorff llywodraethol a'r Awdurdod Addysg. Mae'r corff yn gynhaliol a chefnogol iawn ac nid yw'r aelodau'n ofni herio sy'n gwneud y berthynas yn un buddiol i'r disgyblion. Mae gan yr ysgol amserlen gwarantu ansawdd cynhwysfawr a gwneir defnydd da o'r dystiolaeth sy'n deillio o'r broses wrth lunio hunan arfarniad yr ysgol. Mae'r hunan arfarniad yn ddogfen onest sy'n adnabod yn gywir y meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach ac mae'r CDY yn ffocysu'n effeithiol ar flaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ffaith fod yr ysgol yn mynd ati i wneud gwaith safoni ar y cyd â dwy ysgol gyfagos wedi grymuso'r broses gynllunio yn yr ysgol a chadarnhau gwybodaeth staff am ofynion deilliannau.

Ysgol Gynradd Dihewyd

Safonau

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da o'i gymharu â'u gwaelodlin. Mae llawer yn ysgrifennu'n effeithiol mewn dilyniant o frawddegau llawn, strwythuredig ac mae llawer o ddisgyblion yn gallu cymhwyso eu sgiliau rhif yn llawn pwrpas. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae llyfrau'r disgyblion yn dangos safonau sgiliau llythrennedd a rhifedd da, gyda'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae proffil profion cenedlaethol yr ysgol yn dda yn gyffredinol.

Llesiant ac agweddau at ddysgu

Wrth drafod, mae'r disgyblion yn mynegi eu hunain mewn ffordd gwrtais iawn. Mae aelodau o gyngor yr ysgol yn nodi eu bod yn teimlo bod eu gwaith yn ymwneud â materion gwrthfwlio wedi cael effaith ar eu cyd-ddisgyblion ac ar ethos yr ysgol. Mae'n amlwg bod y disgyblion yn teimlo'n hyderus yn troi at aelod o staff os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau personol yn ymwneud â diogelwch ar-lein ac maent wedi creu posteri i ledaenu'r neges i'r disgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu disgrifio'r hyn sydd ei angen i fyw bywyd iach. Mae disgyblion yn derbyn cyfrifoldebau sydd o ddiddordeb iddynt. Enghraifft o hyn yw gofalu am ardd neu ieir yr ysgol. Hefyd, mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn nhrefniadau'r siop gymunedol trwy werthu rhai o'r cynnyrch. Mae hyn wedi cael effaith lwyddiannus ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ariannol. Mae aelodau o gyngor yr ysgol yn cymryd rhan mewn trefniadau cyffredinol wrth godi arian at elusennau ac achosion da eraill.

Profiadau addysgu a dysgu

Mae'r safon addysgu yn y ddau gyfnod allweddol yn dda yn gyffredinol, gan ddarparu profiadau dysgu llawn dychymyg wedi'u gwreiddio yn yr ardal leol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd pob disgybl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn ymateb yn frwdfrydig wrth drafod adborth a sylwadau ar eu dysgu.

Maent yn ymwybodol iawn o'r system farcio ac yn deall ei bod yn gymorth iddynt ddysgu. Gall y rhan fwyaf ohonynt ddangos enghreifftiau o elfennau yn eu dysgu sydd wedi gwella diolch i adborth gan yr athro. Mae disgyblion CA2 yn frwdfrydig am eu dysgu. Mae'r disgyblion yn gallu egluro bod sylwadau llafar yr athro yn cynnig adborth ar eu gwaith ac yn awgrymu'r camau nesaf sydd angen iddynt eu cymryd. Mae'r disgyblion yn dyfalbarhau ac yn ymddwyn yn dda.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Erbyn hyn, mae'r ysgol yn defnyddio system olrhain cynnydd yr Awdurdod Lleol i fonitro cynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae ymarferwyr yr ysgol yn trafod cynnydd disgyblion yn gyson, ac maent yn deall cryfderau ac anghenion y disgyblion. Yn gyffredinol, pennir targedau priodol ar gyfer disgyblion sydd ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol ac sy'n derbyn cymorth llythrennedd, ac mae'r dystiolaeth yn dangos eu bod yn gwneud cynnydd digonol yn erbyn y targedau hynny. Mae'r prosesau i fonitro presenoldeb disgyblion yn dda yn gyffredinol, ac mae'r ysgol a'r Corff Llywodraethu yn gwbl ymwybodol o'r angen i gynyddu'r ganran bresenoldeb bresennol, sef 93.3%. Mae trefniadau diogelu cadarn ar waith.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gymuned yn rhan hanfodol o'r ysgol ac mae ei gweledigaeth gadarn yn cael ei rhannu'n effeithiol â'i rhanddeiliaid. Mae'r ysgol yn cydnabod, yn ddidwyll ac yn gywir, ei chryfderau a'i meysydd ar gyfer gwella, ac adlewyrchir y rhain yn ei dogfen hunanwerthuso. Mae ganddi hanes o gynllunio'n effeithiol er mwyn gwireddu ei blaenoriaethau. Mae prosesau gwella ansawdd yr ysgol yn werthfawr ac yn deillio o dystiolaeth mewn llyfrau ac mewn gwersi. Mae craffu ar lyfrau ar y cyd ag ysgol gyfagos, sy'n perthyn i gyd-destun tebyg, yn ffordd effeithiol o gymedroli safonau a sicrhau bod athrawon mewn cyfnodau allweddol tebyg yn cyfathrebu'n effeithiol. Mae'r ysgol yn cydnabod anghenion ei disgyblion yn drylwyr, ac mae'n cynllunio nifer o brofiadau dysgu hynod gyfoethog er mwyn hyrwyddo eu cynnydd. Mae'r ysgol yn defnyddio system yr Awdurdod Lleol (Ehedlin) i olrhain cynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn effeithiol, ac mae'n parhau i ddatblygu trefniadau a dulliau o olrhain cynnydd trwy'r fframwaith cymhwysedd llythrennedd, rhifedd a digidol.

Ysgol Gynradd Felinfach

Safonau

Mae safonau disgyblion yn briodol i'w hoedran a'u gallu, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd eu targedau erbyn diwedd cyfnod. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u gwaelodlin a rhwng y ddau Gyfnod Allweddol. Mae system olrhain disgyblion yr ysgol yn dangos bod y rhan fwyaf ohonynt wedi gwneud cynnydd ar draws y meysydd/pynciau yn ystod y flwyddyn. Mae disgyblion sy'n destun ymyrraeth yn gwneud cynnydd da yn gyffredinol.

Llesiant ac agweddau at ddysgu

Mae safonau lles y disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn dda. Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol ac maent yn gwybod y gallant droi at rywun am gymorth os ydynt yn poeni neu'n pryderu am rywbeth. Hefyd, mae'r blwch pryderon yn system effeithiol o gydweithio rhwng disgyblion a staff, sy'n ymateb i bryderon disgyblion. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth gyfoes am sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae llawer o'r disgyblion yn manteisio ar weithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol, ac yn cymryd rhan mewn sesiynau arbenigol gan swyddog chwaraeon yr Urdd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n aelodau o gyngor yr ysgol yn deall eu rolau yn dda, ac mae'r hyn y maent wedi'i gyflawni yn destun balchder iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried yn briodol yn yr ysgol, er enghraifft, trwy'r cylchgrawn 'Clecs y Felin'.

Profiadau addysgu a dysgu

Mae ansawdd yr addysgu yn y ddau gyfnod allweddol yn gadarn. Mae llyfrau'r disgyblion yn tystio i gysondeb yr addysgu yn y ddau gyfnod allweddol. Darperir profiadau dysgu cyffrous sy'n paratoi disgyblion yn llawn pwrpas ar gyfer tasgau ysgrifennu estynedig, llythrennedd a rhifedd. Mae'r adborth a roddir i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith yn cael effaith ar godi safonau gan fod y disgyblion yn ymateb i'r cyngor.

Cymorth, gofal ac arweiniad

Mae gan bob aelod o staff yr ysgol agwedd gynhwysol. Er enghraifft, mae disgyblion sydd â chyflyrau fel awtistiaeth a diabetes yn derbyn gofal da, ac mae'r disgyblion yn elwa'n fawr ar yr ethos cartrefol a chadarnhaol yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio ei chyllid yn dda i ddarparu ymyraethau rheolaidd o ansawdd uchel. Mae gan yr ysgol weithdrefnau manwl iawn i olrhain ymyraethau sy'n sicrhau bod cynnydd disgyblion yn cael ei olrhain yn ofalus a bod y ddarpariaeth yn cael ei haddasu yn unol â datblygiad disgyblion.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan arweinwyr yr ysgol weledigaeth gadarn sy'n cael ei rhannu gan yr holl staff. Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu trylwyr sy'n llywio'r ddogfen hunanwerthuso yn effeithiol. Mae'r hunanarfarniad yn onest ac yn effeithiol ac mae'n nodi cryfderau, gwendidau a meysydd i'w datblygu yn yr ysgol. Mae aelodau'r Corff Llywodraethu wedi dechrau cyfrannu at y prosesau hunanarfarnu, sydd wedi gwella

eu gwybodaeth am gryfderau a meysydd i'w datblygu yn yr ysgol. O ganlyniad, maen nhw mewn sefyllfa well i herio yn ogystal â chefnogi'r ysgol. Hefyd, mae aelodau'r Corff Llywodraethu wedi dechrau adrodd ar agweddau ar fywyd yr ysgol i'r corff llawn. Mae angen canmol y gwaith hwn a'i ddatblygu. Mae Cynllun Datblygu'r Ysgol yn gwneud cyfraniad cadarn at wella safonau, dysgu ac addysgu. Mae'r ffaith fod yr ysgol yn mynd ati i wneud gwaith safoni ar y cyd â dwy ysgol gyfagos wedi grymuso'r broses gynllunio yn yr ysgol a chadarnhau gwybodaeth staff am ofynion deilliannau. Mae'r Pennaeth a'r Awdurdod Addysg yn cydweithio'n dda.

Gallu'r ysgolion i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen a phob Cyfnod Addysg Allweddol

Enw'r Ysgol	Gallu i gyflwyno'r cwricwlwm llawn
Ciliau Parc	Cyflwynir y cwricwlwm llawn mewn ffordd briodol, wahaniaethol, eang ac amrywiol yn Ysgol Ciliau Parc. Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y gallu i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y ddau gyfnod allweddol.
Dihewyd	Cyflwynir y cwricwlwm llawn mewn ffordd briodol, wahaniaethol, eang ac amrywiol yn Ysgol Dihewyd. Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y gallu i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y ddau gyfnod allweddol.
Felinfach	Cyflwynir y cwricwlwm llawn mewn ffordd briodol, wahaniaethol, eang ac amrywiol yn Ysgol Felinfach. Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y gallu i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y ddau gyfnod allweddol.

7. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG (WESP)

Y graddau y mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau a amlinellir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg cymeradwy

Mae'r dair ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgol cyfrwng Cymraeg bydd yr ysgol ardal newydd. Felly ni fyddai'r cynnig i gau'r dair ysgol yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg nac ar y gallu i gefnogi'r targedau a amlinellir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Sut byddai'r cynnig yn ehangu darpariaeth Gymraeg

Byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i ysgol cyfrwng Cymraeg newydd a fyddai'n sicrhau cynnydd eu haddysg ieithyddol. Byddai cyd-destun cymdeithasol ehangach yn cynnig cyfleoedd ieithyddol ffurfiol ac anffurfiol i'r disgyblion.

8. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Os bydd y cynnig presennol yn cael ei gymeradwyo, bydd yn arwain at newid yn amgylchedd dysgu'r holl ddisgyblion. Er y bydd y newid yn effeithio ar yr holl ddisgyblion, mae'r Awdurdod yn cydnabod serch hynny y gall fod yn fwy o her i rai disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cymerir pob cam ymarferol i sicrhau cyn lleied o amharu â phosib, ac i gynorthwyo disgyblion gydag unrhyw drosglwyddo.

Bydd disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu Ysgolion Ciliau Parc, Dihewyd a Felinfach ar hyn o bryd yn parhau i gael y lefel o gymorth sydd ei hangen arnynt i gwrdd â'u hanghenion addysgol unigol yn yr amgylchedd dysgu newydd. Bydd trefniadau ychwanegol sydd yn eu lle ar hyn o bryd ar gyfer disgyblion, megis mynediad i gymorth un i un, yn cael eu hadolygu a'u darparu yn unol â'r angen yn eu hamgylchedd dysgu newydd.

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Os bydd gan rieni disgyblion sydd ar y gofrestr ADY unrhyw gwestiynau ynghylch y cymorth a gynigir, gellir trefnu cyfarfodydd unigol gyda'r Swyddogion Addysg ADY. Cysylltwch â Thîm Gweinyddol AAA Ceredigion drwy e-bost sen@ceredigion.gov.uk neu ffoniwch - 01970 633 693.

9. GWYBODAETH GYLLID

Cyllideb yr Ysgol

Mae'r gwerthusiad ariannol isod yn manylu ar y sefyllfa gyfredol a chostau'r ysgol.

	Cyllideb Blwyddyn Gron 2017/18	Gwariant Gwirioneddol 2017/18	Y gwarged ar 31/3/17	Y gwarged/diffyg ar 31/3/18	Nifer y disgyblion - Ionawr 2018 (defnyddir y ffigur hwn i bennu cyllideb 2018/19)
Ciliau Parc	£226,213	£231,982	£51,336	£45,567	79
Dihewyd	£165,919	£156,588	£576	£9,907	28
Felinfach	£199,727	£195,189	£32,526	£37,064	46

Y gost fesul disgybl

	Y gost fesul disgybl (£) 2018/19	Nifer y disgyblion (CYBLD 2018)	Nifer y disgyblion ar y gofrestr Ionawr 2019	Cyfartaledd Ceredigion
Ciliau Parc	£3,186	79	72	£3,761
Dihewyd	£5,346	28	32	
Felinfach	£4,216	46	40	

Cost ragamcanol y cynnig fesul disgybl	£3,298
--	---------------

Cost reolaidd yr ysgol newydd fydd **£560,773** sy'n cynnwys staff a chostau rhedeg yr ysgol newydd. Amcangyfrifir y byddai'r costau cludiant ychwanegol yn £71,250 y flwyddyn (£375 x190 diwrnod)

Yr arbediad blynyddol posibl a nodwyd ers datblygu'r cynnig yw £66,609.

Amcangyfrifir y bydd y costau cyfalaf yn cael eu hariannu fel a ganlyn:-

Amcangyfrif o gyfanswm y gost	£ 7,100,000.00
Grant ysgolion 21 ganrif ar gael 65%	-£ 4,615,000.00
Grant cyfalaf gofal plant ar gael	-£ 787,500.00
Cyfraniad yr Awdurdod at y prosiect	£ 1,697,500.00

Pe'i derbynnir, caiff cyfraniad yr Awdurdod ei ariannu drwy ddefnyddio cronfeydd yr Awdurdod ei hun, drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, benthycu darbodus ac yn olaf, derbyniadau cyfalaf o asedau a werthwyd.

Mae'r polisi presennol yn caniatáu i'r enillion a ddaw drwy werthu asedau addysgol gael eu cadw a'u hail fuddsoddi yn rhaglen gyfalaf yr ysgolion.

Caiff unrhyw arbedion cost rheolaidd eu cadw o fewn cyllidebau ysgolion lleol yr Awdurdod.

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod yn cadarnhau mai un o elfennau allweddol y strategaeth gyllidebol yw bod gan wasanaethau (gan gynnwys ysgolion) ddyraniadau cyllideb gwastad a bydd angen iddynt fodloni eu costau cynyddol drwy effeithlonrwydd gwasanaeth. Felly, cedwir y costau rheolaidd i gyflawni'r uchod.

10. Tir ac Adeiladau

Nodwyd cyllid Band B Ysgolion yr 21ain ganrif i ariannu'r ysgol ardal newydd. Os mai argymhelliad y Cabinet a chymeradwyaeth ddilynol y Cyngor yn dilyn ymgynghoriad statudol yw cymeradwyo'r cynnig, bydd y derbyniadau cyfalaf yn cael eu defnyddio fel arian cyfatebol tuag at brosiect Ysgolion yr 21ain ganrif.

11. YSTYRIAETHAU STAFFIO

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, gallai'r goblygiadau o ran staffio arwain at ansicrwydd a diswyddiadau posib. Fel rhan o'r ymgynghoriad, cynhelir trafodaethau'n benodol gyda staff a chynrychiolwyr Undebau. Bydd y ddogfen bolisi arweiniol 'Polisi a Gweithdrefnau ar gyfer Delio â Newid Trefniadaethol mewn Ysgolion' yn darparu fframwaith ar gyfer y trafodaethau hynny.

Bydd y Corff Llywodraethu Cysgodol yn cael ei sefydlu cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r broses statudol gael ei chwblhau

12. Y BROSES DDERBYN

- Anfonir llythyrau hysbysu at rieni pob disgybl yn ystod y tymor cyn y dylai'r ysgol agor

Bydd y broses Dderbyn i ddisgyblion newydd fydd yn mynychu'r ysgol fel a ganlyn:

- Rhieni i gysylltu â'r Ysgol
- Cwblhau cais arlein:
https://forms.ceredigion.gov.uk/ufs/ADMISSIONS.eb?COUNTY_ID=667&ebd=0&ebz=1_1548666214421
- Yr Awdurdod Lleol i roi gwybod i reini a yw'r cais i fynychu'r ysgol wedi ei dderbyn

13. CLUDIANT

Gwasgariad Cyfredol y Disgyblion

Mae polisi Cyngor Ceredigion ar gyfer darparu cludiant yn cynnwys cynnig cludiant am ddim i ddisgyblion ysgol gynradd sy'n hŷn na phum mlwydd oed, sy'n mynychu eu hysgol addas agosaf, ac sy'n byw ymhellach na dwy filltir o'r ysgol.

14. LLWYBRAU CERDDED

Rhagwelir y bydd llwybr diogel i'r ysgol yn cael ei ddarparu fel rhan o'r ysgol ardal newydd, a fydd yn galluogi rhai disgyblion i allu cerdded i'r ysgol.

15. ASESIADAU O'R EFFAITH

Aseidiadau Effaith ar y Gymuned, y Gymraeg a Chydraddoldeb

Fel y'i gosodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol cyhoeddi aseidiadau effaith mewn perthynas â'r uchod. Mae'r rhain wedi'u cynhyrchu fel dogfennau ar wahân yn sgil y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol, a'r Cyngor Cymuned, ac mae ar gael ar ein gwefan.

16. MANYLION YR YMGYNGHORIAD STATUDOL

Er mwyn gweithredu'r cynnig presennol, mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r gweithdrefnau fel y'u cadarnheir yn y cod statudol:

- Cyhoeddi adroddiad yr ymgynghoriad, yn cadarnhau manylion y cynnig – bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn ogystal â chael ei anfon at yr holl fuddgyfranogwyr.
- Bydd cyfnod o 42 diwrnod i ymateb i'r cynnig, ac ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, cyhoeddir adroddiad yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd. Cyhoeddir hwn ar wefan y Cyngor.
- Os caiff y cynnig ei dderbyn, cyhoeddir hysbysiad statudol gyda manylion megis y dyddiad gweithredu arfaethedig, sut i gael copi o adroddiad yr ymgynghoriad, a sut i wrthwynebu:
 - Ar wefan y Cyngor:
 - Wedi'i osod ar, neu gerllaw prif fynedfa'r ysgol; a
 - Thrwy ddarparu'r ysgolion a effeithir gyda chopïau i'w dosbarthu i rieni.
- Cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi, yn caniatáu i unrhyw un sydd am wrthwynebu'r cynnig presennol i wneud hynny.
- Y Cyngor yn penderfynu ar y cynnig – pryd y gellir, yn amodol ar y broses uchod, weithredu penderfyniad i roi'r cynnig presennol ar waith – dylid gweithredu'r cynnig yn unol â'r dyddiad a roir yn yr hysbysiad statudol, neu unrhyw ddyddiad priodol arall.

Isod ceir manylion y llinell amser a ragwelir ar gyfer y broses hon:

<u>Dyddiad</u>	<u>Gweithgaredd</u>
5 Mehefin 2019	Dechrau'r Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol: Bydd cyfnod o ymgynghori ffurfiol yn cymryd lle, yn ystod y cyfnod hwn gall buddgyfranogwyr fynegi'u barn am y cynnig
16 Gorffennaf 2019	Diwedd y Cyfnod Ymgynghori Ffurfiol
3 Medi 2019	Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Ffurfiol: Ar ddiwedd y cyfnod o ymgynghori ffurfiol, bydd yr ymatebion yn cael eu crynhoi a'u cyflwyno i'r Cabinet ar ffurf Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Ffurfiol, gan gynnwys argymhelliad gan y Swyddogion. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Ceredigion.
17 Medi 2019	Dechrau Cyfnod yr Hysbysiad Statudol: Os caiff y cynnig ei dderbyn gan y Cabinet, cyhoeddir hysbysiad statudol. Yn ystod y cyfnod o wrthwynebiad statudol, rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau'n ysgrifenedig, a'u hanfon at y cynigydd o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig.
14 Hydref 2019	Diwedd Cyfnod yr Hysbysiad Statudol
5 Tachwedd 2019	Cabinet: Adrodd ar y nifer o wrthwynebiadau a dderbyniwyd
12 Rhagfyr 2019	Cyngor: Penderfyniad Terfynol - Os derbynnir gwrthwynebiadau yn ystod cyfnod cyhoeddi'r hysbysiad statudol, bydd y gwrthwynebiadau'n cael eu crynhoi i ffurfio adroddiad gwrthwynebu. Bydd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o bob gwrthwynebiad a wnaed, ynghyd ag ymateb yr Awdurdod.

17. FFURFLEN YMATEB – YSGOL ARDAL DYFFRYN AERON

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu i randdeiliaid roi sylwadau ar:

- Y prif gynnig h.y. agor **ysgol ardal newydd ar safle newydd yn Nyffryn Aeron** gan arwain at gau Ysgol Ciliau Parc, Dihewyd a Felinfach
- Trefniadau amgen sydd wedi eu nodi h.y. opsiynau yn y Ddogfen Ymgynghori a/neu
- Awgrymu trefniadau amgen eraill

Eich sylwadau:

Llofnod:	
Printiwch eich Enw:	
E-bost:	
Cyfeiriad:	
Dyddiad:	
Nodwch os hoffech chi gael gwybod pan fydd yr adroddiad ymgynghori'n cael ei gyhoeddi: <input type="checkbox"/>	

Sylwer, oni bai eich bod yn nodi i'r gwrthwyneb, bydd eich sylwadau ar gael i'r cyhoedd fel rhan o gofnodion ffurfiol yr ymgynghoriad.

Dychweler erbyn 16 Gorffennaf 2019 fan bellaf i:

Cyngor Sir Ceredigion, Gwasanaeth Ysgolion, 2^{il} Lawr, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE

Neu e-bostiwch: adolygu.ysgolion@ceredigion.gov.uk